YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 15
MEDI 2008

Efallai i chi gofio imi gyfeirio yn rhifyn diwethaf y cylchgrawn at y rhedwr Eric Liddell, un o brif gymeriadau y ffilm ragorol "Chariots of Fire". Ganed Eric Liddell yn 1902 yn Tsientin, China, yn fab i Albanwyr a oedd yn gweithio yno fel cenhadon. Yr oedd Eric yn rhedwr arbennig ac yn y Chwaraeon Olympaidd ym Mharis yn 1924 enillodd fedal aur yn y ras 400 metr gan dorri record y byd. Er iddo ennill medal aur yn y ras honno, mae'n debyg mai ei hoff ras oedd y ras can metr, ond gan ei fod yn Gristion ymroddedig gwrthododd redeg am fod y ras ragbrofol honno yn cael ei chynnal ar y Sul.

Diddorol oedd canfod mwy o'i hanes yn un o'r papurau newydd canol fis Awst a dyma rannu rhai o'r ffeithiau hynny amdano.

Wedi'r Chwaraeon Olympaidd ym Mharis yn 1924, cyfarfu Eric Liddell â nyrs o Ganada, o'r enw Florence Mackenzie. Priododd y ddau a mynd i China i weithio fel cenhadon gyda Eric yn dilyn ôl traed ei rieni. Ganed iddynt dair o ferched ond tra'n disgwyl y drydedd ferch fe dorrodd yr Ail Rhyfel Byd allan. Penderfynodd Eric y dylai ei wraig a'r ddwy ferch fach, a oedd yn chwech ac yn bedair mlwydd oed ar y pryd, ddychwelyd i fyw i Ganada am ei bod yn rhy beryglus iddynt aros yn China. Ym mis Mawrth 1943 clywodd y teulu bod Eric wedi cael ei garcharu gan y Siapaneaid. Byddent yn derbyn ambell lythyr ganddo drwy gyfrwng Mudiad y Groes Goch ond câi unrhyw fanylion yn y llythyron eu dileu gan y Siapaneaid am na ddymunent i'r carcharorion eu datgelu i'r byd. Mae'n debyg mai ychydig o fwyd oedd yn y carchar ac yr oedd yn oer iawn yno yn y gaeaf, tra yn ystod yr haf yr oedd yn annioddefol o boeth. Ond er gwaethaf yr amodau anodd yn y carchar bu Eric yn weithgar iawn yno. Sefydlodd ysgol i'r plant ac fe fyddai hefyd yn trefnu mabolgampau iddynt. Câi ei adnabod yn y carchar fel "Uncle Eric" a hynny oherwydd ei ofal di-flino dros eraill. Cafodd gyfle i ddychwelyd adre fel rhan o gynllun cyfnewid carcharorion ond fe roddodd ei le i wraig ifanc a oedd yn disgwyl plentyn. Ysgrifennodd ei lythyr olaf at ei deulu yng Nghanada ym mis Chwefror 1945 gan ddweud ei fod yn teimlo'n flinedig iawn. Ychydig ar ôl hynny bu farw Eric yn 43 oed o ganlyniad i dyfiant ar yr ymennydd.

Hyd at yn ddiweddar nid oedd unrhyw cofnod ar gael o'i fedd ond yn y naw degau cynnar fe aeth Albanwr o'r enw Charles Walker, a oedd yn gweithio fel peirianydd yn Hong Kong, ati i chwilio amdano am ei fod yn poeni bod un o arwyr mawr yr Alban mewn perygl o gael ei anghofio. Roedd hon yn dasg anodd gan fod enawu'r lleoedd wedi newid, tystion wedi marw a dogfennau wedi mynd ar goll. Ond wedi hir chwilio daethpwyd o hyd i'r bedd gyda chymorth yr union ŵr a dorrodd bedd Eric Liddell yn y carchar. Yn y fan y'i claddwyd, codwyd cofeb iddo, â darn o garreg o Ynys Mull, gyda geiriau o broffwydoliaeth Eseia wedi'u hysgrifennu arni: "Y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio". (Eseia 40:31)

Fel pob un o'r cystadleuwyr a enillodd fedalau aur yn Beijing eleni fe gyflawnodd Eric Liddell gamp aruthrol yn y Chwaraeon Olympaidd ym 1924, ond cyflawnodd gamp aruthrol fwy drwy roi ei fywyd i wasanaethu ei Arglwydd o dan amodau anodd a dirdynnol. Diolchwn amdano a bydded ei fywyd yn ysbrydoliaeth i bawb ohonom.

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939
E-bost: berwynfa@btinternet.com.
(Byddwn yn dal i fedru derbyn negeseuon ar yr cyfeiriad e-bost blaenorol am beth amser).

CALENDR MIS MEDI 2008

	Cyhoeddwr y Mis :Ceris Gruffudd
7 Medi 10.30 2.30	 Clwb Sul Oedfa Gymun : Gweinidog
14 Medi : 10.30	 Oedfa Deuluol : Gweinidog
21 Medi 10.30 2.30	 Clwb Sul Oedfa Bregeth : Y Parchedig Peter Thomas Te i ddilyn yr oedfa.
28 Medi 10.30	 Clwb Sul a Chlwb Sul Bach. Oedfa Arbennig yn Horeb i groesawu Aelodau a Chyfeillion hen a newydd. Dalier Sylw: Cynhelir Oedfa Arbennig ym Methel am 2.30 i neilltuo'r Organ Newydd yn y Capel er cof am Rhun Owens. Fe fydd Rob Nicholls yn rhoi datganiad ynghyd â Chôr Meibion Aberystwyth. Croeso cynnes.

I'CH DYDDIADUR

8 Medi : Cinio Cymorth Cristnogol : Capel y Morfa : 12.00-1.30
15 Medi : Gweithgor Ceredigion : Horeb Penrhyn-coch am 2.00. Disgwylir y Parchedig Eirian Wyn Lewis i annerch. Croeso cynnes i Bawb.
16 Medi : Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd: Ebenezer, Llandeilo. 1.30 a 6.00
24 Medi : Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cymorth Cristnogol am 7.00. Canolfan Fethodistaidd San Paul
12 Hydref : Oedfa yn yr Ysbyty o dan ofal y Gweinidog am 3.00.
19 Hydref : Cyrddau Mawr Bethel a Seion. Eleni fe fyddwn yn cyfarfod yn Seion am 10.00 ac am 6.00. Croesewir y Parchedig Ieuan Davies i wasanaethu.
28 Hydref : Cwrdd Gweddi Misol am 7.30

LLOFFION

Llongyfarchiadau i:

- Manon a Rhys ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU
- Elin ar ei llwyddiant yn yr arholiadau AS
- Owain (mab Meryl a Peter) ar ennill ei radd M.Sc
- Sion James a Glenys Morgan ar gael eu penodi i swyddi gyda'r Cyngor Sir
- Rhian Dobson ar gael ei phenodi i swydd yn ysgol Llangybi

Dymuniadau gorau i:

- Mrs Menna Jenkins sydd wedi symud i Hafan y Waun ac a fu hefyd yn dathlu ei phen-blwydd ym mis Medi
- Meryl, Gillian a Robert ar eu hymddeoliadau.

Cwrdd Gweddi Misol

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y diaconiaid penderfynwyd cynnal cwrdd gweddi misol i ystyried sut yr ydym fel eglwys yn mynd i fwrw ymlaen â'n gwaith o hyrwyddo neges yr Efengyl a datblygu ein gweithgareddau fel eglwys. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar y nos Fawrth olaf o fis Hydref (28) am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

Apêl am Gymorth

A fyddai rhywrai yn barod i gynorthwyo i baratoi paned o de wedi Cyfarfod Gweithgor Ceredigion?

Dathlu Caniadaeth y Cysegr : Neges gan y Bnr. Alan Wynne Jones

Yn ystod yr Hydref eleni byddwn yn dathlu dau ddigwyddiad pwysig yn hanes "Caniadaeth y Cysegr". Ym mis Hydref bydd pum mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r gyfrol gyntaf o "Clap a Chân" gan Eddie Jones a Falyri Jenkins ac yna, ym mis Tachwedd, byddwn yn dathlu canmlwyddiant geni'r diweddar W Llewelyn Edwards. I ddathlu'r achlysuron hyn cytunodd Cedric Jones o gwmni "Andante",i recordio chwech o donau W Llewelyn Edwards ar gyfer rhaglen arbennig o "Caniadaeth y Cysegr". Recordir y detholiad o donau W Llewelyn Edwards mewn cyfarfod arbennig, ar ffurf cymanfa fer, yng Nghapel y Garn ar nos Fawrth, 14 Hydref 2008 am 7 o'r gloch. Estynir gwahoddiad cynnes i aelodau/cantorion holl eglwysi Gogledd Ceredigion i ymgynnull i ffurfio cynulleidfa/côr teilwng i ddathlu'r achlysur. Cynhelir dwy rihyrsal ymlaen llaw fel a ganlyn am 7 o'r gloch ar :

- Nos Fawrth, 30 Medi 2008 yn Festri Capel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth
- Nos Fawrth, 7 Hydref 2008 yng Nghapel y Garn, Bow Street.

Gofynnir yn garedig i bawb ddod â chopi o "Caneuon Ffydd" a Detholiad 2006-7 gyda nhw.